CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

# Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru Diweddariad Cynnydd - Gorffennaf 2022

## Blaenoriaeth 1: Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl.<br><br>Sicrhau ei bod yn cael mynediad at y cymorth maent ei angen.<br><br>Canfod gofalwyr newydd.<br><br>Cydnabod cyfraniadau gofalwyr. Cynnwys gofalwyr fel partneriaid mewn prosesau asesu a chynllunio.<br><br>Sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. | Mae gwaith yn parhau ar draws y rhanbarth i gyrraedd gofalwyr cudd drwy ddiweddaru a chreu pamffledi gwybodaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ac annog gofalwyr di-dâl i gysylltu os ydynt angen cymorth. Rhaid i ofalwyr di-dâl gael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi ar draws yr holl adrannau o fewn awdurdodau lleol, nid gofal cymdeithasol yn unig.<br><br>Ceisir barn a gwybodaeth gofalwyr, a chaiff y rhain eu rhannu, eu defnyddio a'u diweddaru'n gyson wrth lunio cynlluniau gofal cyffredinol a strategaethau.<br><br>Mae cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i ofalwyr di-dâl ar draws y rhanbarth drwy sesiynau cymorth un i un a grwpiau ar-lein. | Bydd y canolbwynt yn parhau i fod ar ganfod gofalwyr yn gynnar er mwyn osgoi argyfwng, wrth geisio gwella prosesau canfod gofalwyr a sicrhau fod gwasanaeth cyfeirio yn cael ei gynnig yn gyson ar bwynt diagnosis neu ar y pwynt o adnabod y gofalwr.<br><br>Bydd gofalwyr o bob oed yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddod yn rhan o fforymau a chyfleoedd i leisio eu barn gan gynnwys fforymau gofalwyr lleol/rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>Hyrwyddo digwyddiadau lleol gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Gofalwyr / Diwrnod Hawliau Gofalwyr / Diwrnod Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc. Mae digwyddiadau'n cael eu cydlynu gyda phartneriaid 3ydd Sector drwy grwpiau | **Oren** |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Asesiadau o anghenion gofalwyr, gan arwain at gynllun cefnogi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | Mae Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru a'r Ap AiDi wedi lansio ar draws y rhanbarth. Mae cardiau adnabod yn cael eu rhannu i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc yn ein cymunedau. Bydd yr ap yn galluogi disgyblion mewn ysgolion yn Ynys Môn a Gwynedd i gyfathrebu'n hawdd gyda'u haddysgwyr, gan leihau'r pwysau ar ddisgyblion ifanc. Bydd yn adnodd defnyddiol iawn er mwyn sicrhau fod gofalwyr ifanc yn ddiogel, yn gallu ymdopi â'u gwaith ysgol ac yn gallu gofyn am gymorth ychwanegol os oes angen. Mae ap tebyg yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Gorllewin a Chanolog.<br><br>BIPBC:<br>Mae Cynnal Gofalwyr a NEWCIS yn parhau i weithio'n agos gyda meddygfeydd a holl leoliadau gofal eilaidd ar draws Gogledd Cymru er mwyn codi proffil gofalwyr di-dâl yng Ngogledd Cymru. Bydd ein hwyluswyr meddygfeydd ac ysbytai yn ceisio addysgu holl staff gofal cynradd ac eilaidd o ran sut i adnabod gofalwyr di-dâl a sut i'w hatgyfeirio nhw ymlaen i wasanaethau cymorth gofalwyr lleol. | Strategaeth Gofalwyr lleol pob awdurdod lleol.<br><br>Gwynedd:<br>Mae gwaith yn parhau er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y gweithlu. Mae hyfforddwr allanol wedi cael ei gomisiynu i ddarparu sesiynau gyda staff. Byddent hefyd yn cydweithio gydag Adnoddau Dynol i sicrhau fod Gwynedd yn gyflogwr sy'n ystyriol o ofalwyr.<br><br>Mae pecyn celf rhyngweithiol wedi cael ei gomisiynu ac mi fydd yn adnodd addysgol gwych er mwyn denu sylw gofalwyr cudd tra'n codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc sydd eisoes yn yr ysgol.<br><br>Bydd rhaglen ddogfen hirach yn cael ei chreu gyda gofalwyr ifanc lleol. Byddent yn rhan o bob agwedd o'i greu felly bydd yn adnodd diddorol iawn.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn ymuno ag Ysgol Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol lleol i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ymysg y genhedlaeth nesaf o ymarferwyr yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| | Gwynedd:<br>Wedi gweithio gyda fferyllfeydd ar draws y Sir i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl. Cynigiwyd cerdyn 'gofalu am rywun' gyda phob presgripsiwn ac anogwyd gofalwyr di-dâl i gysylltu â'r awdurdod lleol neu'r Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr.<br><br>Mae ffilm ddogfen byr wedi cael ei chreu i hysbysebu'r ap AIDI a bydd rhaglen ddogfen hirach yn cael ei chreu gyda gofalwyr ifanc lleol. Byddent yn rhan o bob agwedd o'i greu felly bydd yn adnodd diddorol iawn.<br><br>Roedd Diwrnod Gofalwyr Ifanc ym Mawrth a chynhaliwyd dathliad i ddiolch i'r holl ofalwyr ifanc sydd wedi bod yn gweithio'n galed gyda'r awdurdod lleol.<br><br>Sir y Ddinbych:<br>Mae Siarter Gofalwyr lleol wedi cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr a gofalwyr di-dâl lleol o bob oed.<br><br>Wrecsam:<br>Dyfarnwyd cyllid i NEWCIS i ddatblygu a darparu Hwylusydd Lles Gofalwyr Dementia. Mae'r swydd yn benodol i dargedu gofalwyr di-dâl a'u cefnogi yn eu rôl gofalu a gyda chynllunio at argyfwng. | Sir y Ddinbych:<br>Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a GOGDdC i wella prosesau casglu data a metrigau.<br><br>Bydd Siarter Gofalwyr lleol Sir Ddinbych yn alinio â'r Siarter Gofalwyr Di-dâl Cenedlaethol.<br><br>Wrecsam:<br>Cefnogwyr Gofalwyr i'w harchwilio ymhob adran o'r awdurdod lleol.<br><br>Mae rôl Arweinydd Gofalwyr yn cael ei ddatblygu er mwyn arwain ar gydlynu gwaith perthnasol o ran gofalwyr di-dâl ar draws adrannau, iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector ar draws y Sir, yn ogystal â helpu grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr di-dâl i ymgysylltu â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cefnogi.<br><br>Adferiad:<br>Datblygu deunyddiau hyrwyddo newydd a thudalen gofalwyr ar ofod CLlC Gogledd Cymru ar wefan BIPBC. | |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| | Adferiad:<br>Yn Ynys Môn, mae cymorth yn cael ei ddarparu drwy fodel seibiant lle cynigir cymorth tymor byr i'r unigolyn y gofalir amdanynt ynghyd â chymorth i ofalwyr er mwyn cefnogi'r unigolyn y gofalir amdanynt i gael mynediad at wasanaethau ychwanegol.<br><br>Cymdeithas Alzheimer's:<br>Mae manylion cyswllt Dementia Connect yn cael eu hysbysebu'n rheolaidd ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Llais Dementia - mae nifer o ofalwyr cofrestredig wedi cofrestru ac yn cefnogi'r ymgyrch 'Cure the Care System'. Mae gofalwyr yn siarad â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac yn rhan o ymgynghoriadau.<br><br>Mae grŵp o ofalwyr di-dâl yn gweithio gyda Grŵp Llywio Strategaeth Dementia Gogledd Cymru er mwyn helpu i siapio gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. | Cymdeithas Alzheimer's:<br>Contract gyda BIPBC i ddarparu cymorth cyn ac ar ôl diagnosis. Bydd hyn yn eu galluogi i ymgysylltu â gofalwyr ar y pwynt diagnosis, yn rheolaidd ac i ddarparu cymorth iddynt pan fo angen.<br><br>Canolfan Therapi Niwro:<br>Cyswllt parhaus gyda gofalwyr di-dâl os oes anghenion dynodedig, trwy Raglen Cefnogi Dros y Ffôn, sy'n cael ei sefydlu i mewn i'r gwasanaeth craidd wrth symud ymlaen.<br><br>Codi ymwybyddiaeth ymhellach am waith y ganolfan a'r cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl ymysg gofal cynradd ac eilradd a'r gymuned ehangach.<br><br>NEWCIS:<br>Gweithio gyda Datblygu'r Gweithlu yn Sir Ddinbych i ddatblygu modiwl e-ddysgu Carer Aware ar gyfer holl staff yr awdurdod lleol. | |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| | Gofalwyr Ifanc WCD:<br>Mae sesiynau grŵp wedi cael eu cynnal ar-lein yn ystod y pandemig, a lle mae cyfyngiadau wedi caniatáu, wedi cynnal grwpiau a gweithgareddau tu allan. Maent hefyd wedi cynnal cyfathrebu o bell, e.e. ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cefnogi gofalwyr ifanc dan 8 drwy weithgareddau seibiant, tripiau allan ac ati, a darparu sesiynau bob yn ail wythnos yn benodol ar gyfer y rhai o dan 8 oed. Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyswllt gyda'r rhai dan 8 ar eu rhestrau aros ac yn darparu gwybodaeth a chyngor. Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i wasanaethau cymdeithasol statudol os oes angen asesiad cymorth a gofal.<br><br>Mae Fforwm Gweithredu Gofalwyr Ifanc wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad ar y cyd a'u sianeli adborth arferol. Anogir gofalwyr ifanc i roi adborth ar y gwasanaeth yn ystod sesiynau grŵp ac un i un. Ymgynghorwyd â gofalwyr ifanc fel rhan o 'Adolygiad Mawr' Credu Cymru o'r gwasanaeth. Ymgynghorwyd hefyd â gofalwyr ifanc ar ddiweddariad parhaus manyleb y gwasanaeth. | | |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| | Mae'r cwrs 'Carer Aware' Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych wedi cael ei ddatblygu a'i ddarparu i ystod o fudd-ddeiliaid mewn amryw o leoliadau gan gynnwys staff gofal cymdeithasol yn ogystal â chydweithwyr mewn gwasanaethau eraill a gomisiynir a'r trydydd sector. Darparwyd sesiynau ar-lein ac mae darpariaeth wyneb yn wyneb yn cael ei ystyried. | | |

## Blaenoriaeth 2: Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Mynediad at y wybodaeth a chyngor cywir ar yr adeg iawn ac yn y fformat priodol.<br><br>Dylai'r wybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir fod yn gymesur i anghenion yr unigolyn, i gefnogi atal ac ymyrraeth gynnar, drwy waith partneriaeth ac amlasiantaeth.<br><br>Angen eiriolaeth, yn arbennig wrth ddelio gyda gweithwyr proffesiynol er mwyn i lais y gofalwyr gael ei glywed. | Gwynedd:<br>Cyhoeddwyd taflen wybodaeth 'Asesiad o Anghenion Gofalwyr' ar y cyd â gofalwyr di-dâl.<br><br>Mae taflenni gwybodaeth ar gael ar-lein, drwy'r timoedd cymunedol, partneriaethau 3ydd sector ac mewn llyfrgelloedd.<br><br>Mae posteri wedi cael eu datblygu i hyrwyddo'r Gronfa Les a reolir gan Wasanaeth Cynnal Gofalwyr ar ran y Cyngor.<br><br>Sir y Ddinbych:<br>Mae cysylltiadau wedi cael eu gwneud gyda'r Adran Dai ynghyd â chyflawni ymchwil i ddeall yr angen am denantiaeth/tai mewn perthynas â chefnogi gofalwyr ifanc.<br><br>Agorodd Pwynt Siarad Prestatyn ym Mawrth 2022.<br><br>Wrecsam:<br>Mae Asiantwyr Cymunedol wedi cael eu comisiynu i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y gymuned ar gyfer y rhai dros 50 oed. | Gwynedd:<br>Bydd taflenni gwybodaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru lle bod angen.<br><br>Sir y Ddinbych:<br>Mae gwefan newydd dan ddatblygiad gyda thudalennau gofalwyr newydd gyda dolenni gwell i sefydliadau partner a gwefannau allanol.<br><br>Ymarfer mapio i gael ei gynnal er mwyn diweddaru gwybodaeth ar ba gymorth sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer gofalwyr yn dilyn y pandemig.<br><br>Bydd Ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn gwella drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Wrecsam:<br>Angen cymorth eiriolaeth ar y lefel briodol, wedi'i deilwra i anghenion gofalwyr sydd mewn camau bywyd, amgylchiadau, amodau a siwrnai gofalu gwahanol.<br><br>Mae Hwylusydd CHC yn cael ei archwilio yn arbenigo mewn eiriolaeth. | **Oren** |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Gall gofalwyr ifanc deimlo'n ansefydlog am eu tai gan nad ydynt yn gallu derbyn budd-daliadau neu dderbyn cyfrifoldeb i dalu biliau cyfleustodau eu hunain. | Canolfan Therapi Niwro:<br>Mae gwasanaethau ar-lein wedi cael eu sefydlu i'r gwasanaeth darpariaeth craidd.<br>Canolbwyntio ar ddiogelu, a mynd i'r afael â materion a gododd i aelodau yn ystod ynysu.<br><br>Cyrsiau penodol ar gyfer gofalwyr - datblygu sgiliau - Coping for Caring, hyfforddiant ymgysylltu Digidol.<br><br>NEWCIS:<br>Mae prosiect peilot yn parhau ynghyd â Chanolfan Cyngor ar Bopeth yn targedu gofalwyr mewn ardaloedd gwledig a chynnig cymorth a chyfeillgarwch gan wneud y mwyaf o fudd-daliadau ac incwm. | Adferiad:<br>Pecynnau gwybodaeth newydd i'w rhannu ar draws y rhanbarth yn unol â'r Adferiad Recovery newydd. | |

## Blaenoriaeth 3: Cefnogi bywyd ar y cyd â gofalu

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Cyfle i gymryd egwyl o'r rôl gofalu. Mynediad i ffurfiau gwahanol ac arloesol o egwyl byr a / neu seibiant gyda neu heb yr unigolyn maent yn gofalu amdanynt. (Gall hyn gynnwys chwaraeon, hamdden neu weithgareddau diwylliannol, yn ogystal â ffurfiau mwy traddodiadol e.e. gwasanaethau eistedd gyda phobl)<br><br>Wrth gysylltu â blaenoriaeth 4, gall gael bywyd ar y cyd â gofalu olygu gweithio neu gyflawni hyfforddiant.<br><br>Mesurau ataliol i atal y systemau cefnogaeth gymdeithasol rhag i ofalwyr ifanc fod mewn perygl. | Nid yw darpariaeth seibiant wedi gallu cael ei ddefnyddio mor hawdd yn sgil COVID-19. Mae ehangu'r gwasanaeth wedi cynyddu hyn, ond mae'n parhau i fod yn her ar gyfer holl bartneriaid.<br><br>Mae'r awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaethau yn y 3ydd sector i hyrwyddo hawliau gofalwyr di-waith i fyw yn ogystal â gofalu. Mae cyfleoedd ar gyfer gofalwyr yn cael eu canfod drwy bresgripsiynu cymdeithasol, llywyr cymdeithasol a chymorth asiant cymunedol ar draws y rhanbarth.<br><br>Mae nifer o brosiectau wedi'u hariannu ar draws y rhanbarth sy'n canolbwyntio ar wella lles a rhoi seibiant byr i ofalwyr di-dâl.<br><br>Mae cyllid Grant Seibiant Gofalwyr Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio gan yr awdurdod lleol i ariannu rhent llety a gwasanaethau i alluogi gofalwyr di-dâl gael seibiant byr.<br><br>Gwynedd:<br>Sesiynau lles ar gyfer gofalwyr di-waith mewn lleoliadau ar draws y Sir.<br><br>Sesiynau celf ar-lein ar gyfer rhieni gofalwyr i oedolion gydag anableddau dysgu. | Bydd taliadau uniongyrchol yn parhau i gael eu hyrwyddo ar gyfer egwyl/seibiant byr i ofalwr ar draws y chwe awdurdod lleol.<br><br>Bydd gwaith yn parhau gyda darparwyr gwasanaeth cymorth i ofalwyr er mwyn datblygu cyfleoedd seibiant mwy arloesol a chreadigol er mwyn bodloni anghenion.<br><br>Anghenion cymorth pellach i gael ei ddarparu er mwyn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg i gefnogi iechyd a lles gwell a rhoi sicrwydd ac annibyniaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl.<br><br>Gwynedd:<br>Mae rhaglen waith wedi cael ei chomisiynu er mwyn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun 'lletygarwch' lleol. Mae hyn ar y cyd ag Ynys Môn.<br><br>Comisiynu Gwasanaeth Cefnogi i ddarparu hyd at 18 awr o wasanaeth eistedd neu fynd gyda'r unigolyn maent yn gofalu amdanynt. | **Oren** |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Yr angen am gymorth gydag addysg a dysgu ar gyfer bobl ifanc. | Cafodd rhan o'r grant Seibiant Gofalwyr ei rannu i'r Tîm Integredig Plant Anabl i'w ddefnyddio mewn ffyrdd arloesol ar gyfer rhieni a gofalwyr.<br><br>Sir y Ddinbych:<br>Cafodd gwirfoddolwyr cymunedol eu recriwtio i helpu yn ystod y pandemig ac mae tîm newydd bellach wedi cael ei sefydlu i barhau ac ehangu'r prosiect er mwyn lleihau unigrwydd ac wedi cyflawni canlyniadau da ar gyfer gofalwyr hyd yn hyn.<br><br>Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr:<br>Mae ail garafán wedi cael ei brynu yn Hafan y Môr er mwyn galluogi gofalwyr i gael seibiant.<br><br>NEWCIS:<br>Mae nifer llai nac arfer wedi cymryd mantais o'r seibiant 'Pontio'r Bwlch' o ganlyniad i'r pandemig a phryder gofalwyr o ddod â gofal cartref i'r cartref. Mae hyn wedi cael ei addasu lle bynnag bosibl gyda chymorth ffrindiau/teulu a rhagwelir y bydd hyn yn gwella dros y flwyddyn.<br><br>Mae eiddo gwyliau wedi cael ei brynu ym Mhrestatyn ar gyfer gofalwyr di-dâl i gael seibiant ar lan y môr. | Ymestyn yr oriau gweithio ar gyfer y swyddog cefnogi gofalwyr yn y Tîm Iechyd Meddwl, Hergest.<br><br>Wrecsam:<br>Bydd rhaglen hyfforddi gofalwyr yn cael ei weithredu ar draws timoedd Gofal Cymdeithasol Wrecsam er mwyn helpu i ganfod cyfleoedd a buddion asesiadau ar y cyd er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal creadigol yn bodloni cymaint o anghenion â phosibl ar gyfer y gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn y gofal.<br><br>Adferiad:<br>Ceisio parhau i gyfathrebu gyda gofalwyr di-dâl o ran y cyfleoedd seibiant yr hoffent ei dderbyn a beth fyddai'n gweddu eu hanghenion orau.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Troop Café yn Llandudno a'i ddefnyddio mwy fel canolfan, i ofalwyr ei ddefnyddio ac i ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau gofalwyr eraill i ffurfio canolfan i ofalwyr di-dâl fynd. | |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| | Gofalwyr Ifanc WCD:<br>Maent wedi'i chael yn anodd cael mynediad at gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau seibiant yn ystod y pandemig ac wedi bod yn greadigol o ran canfod datrysiadau diogel wrth i'r cyfyngiadau ganiatáu hynny e.e diwrnodau ar y traeth gyda theulu, cyfarfod yn y parc, teithiau cerdded grŵp, pantomeimau ar-lein a phreswyl ar-lein gan gynnwys gemau a gweithgareddau a ddewisir gan ofalwyr ifanc. | Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr:<br>Ceisio cefnogi'r galw cynyddol am gwnsela a therapi ymddygiad gwybyddol ar gyfer gofalwyr di-dâl.<br><br>Canolfan Therapi Niwro:<br>Mae dychweliad i sesiynau wyneb yn wyneb wedi cael ei gynllunio ar gyfer rhaglenni sesiwn goffi, cyfleoedd gwirfoddoli a sesiynau ffitrwydd yn y gampfa.<br><br>NEWCIS:<br>Cyflawni gwaith ar y cyd â'r Rheolwr Profiad Gofalwyr BIPBC i hyrwyddo pecyn gwaith COPE ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol.<br><br>Gofalwyr Ifanc WCD:<br>Mae cyfarfodydd wedi cael eu trefnu gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gyfer gofalwyr ifanc yn y categori NEET (Ddim mewn Addysg na Chyflogaeth). | |

## Blaenoriaeth 4: Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Dylai cyflogwyr a lleoliadau addysgol / hyfforddi gael eu hannog i addasu eu polisïau a'u hymarferion i alluogi gofalwyr di-dâl i weithio a dysgu ar y cyd â'u rôl gofalu.<br><br>Gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddatblygu eu sgiliau i gael cyflogaeth addas, er mwyn dychwelyd i'r gweithlu neu gael swydd am y tro cyntaf. | Gwynedd:<br>Mae'r Polisi Gofalwyr i staff sydd yn ofalwyr di-dâl wedi cael ei gyhoeddi. Mae dau ddiwrnod ychwanegol o wyliau ar gael ar gyfer gofalwyr i fynd a'u hanwyliaid i apwyntiadau ysbyty ac ati.<br><br>Sir y Ddinbych:<br>Swyddog Comisiynu sy'n arwain ar ofalwyr di-dâl yn mynychu Rhwydwaith Cyflogaeth Sir Ddinbych er mwyn hyrwyddo materion gofalwyr di-dâl.<br><br>Mae Sir Ddinbych yn Gweithio yn cefnogi gofalwyr i ddod o hyd i, a chadw cyflogaeth a hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cyflogwr.<br><br>Adferiad:<br>Atgyfeirio unrhyw ofalwyr di-dâl cymwys sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith drwy hyfforddi neu wirfoddoli, i brosiect Cyfle Cymru a'r tîm gwirfoddoli.<br><br>Cymdeithas Alzheimer's:<br>Polisi Gofalwyr dynodedig sy'n caniatáu hyblygrwydd a gwyliau gyda thâl ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. | Gwynedd:<br>Bydd y Polisi Gofalwyr yn cael ei adolygu ynghyd â grŵp ar gyfer gofalwyr di-dâl.<br><br>Sir y Ddinbych:<br>Bydd Arolwg Staff Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ailddechrau'r Rhwydwaith Cyflogai i Ofalwyr yn dilyn COVID-19.<br><br>Cymorth parhaus ar gyfer datblygu Catalydd Cymunedol/Cyflogwyr Micro ar draws y Sir.<br><br>Adferiad:<br>Gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i helpu datblygu'r Coleg Adferiad fel y gall unrhyw sesiynau hyfforddi a nodir fel rhan o adferiad gael eu hwyluso a'u datblygu wrth symud ymlaen.<br><br>Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr:<br>Gobeithio gallu darparu cyfleoedd hyfforddi am ddim ar gyfer gofalwyr di-dâl yn y dyfodol agos, megis codi a symud a chymorth cyntaf a ddarperir i holl ofalwyr eraill sy'n derbyn cyflog. | **Oren** |

| Angen | Sut rydym yn cyfrannu at hyn | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cynnydd Coch/Oren/ Gwyrdd |
|---|---|---|---|
| | | NEWCIS:<br>Gweithio gyda gofalwyr di-dâl a chyflogwyr posibl ar gydnabod gofalwyr a pholisïau ac arferion cyflogwyr sy'n ystyriol i ofalwyr a cheisio hyrwyddo ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl i gyflogwyr mwy. | |